NMC019

Archwiliad o Gynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint (2015 – 2030)

Mater 19 Mwynau – Pwyntiau Gweithredu a NMCau

19 Mai 2021 11.00 am

Cyfeiriadau	Pwyntiau Gweithredu a NMCau	Amserlen	Ymateb y Cyngor/NMC Arfaethedig
AP19.1	Dangos fod Dociau Mostyn a'r cilffyrdd rheilffordd yng Ngwaith Sment Padeswood yn cael eu diogelu drwy Bolisi EN23 – dangos hynny ar y map cyfyngiadau.		
AP19.2	Diwygiad i Bolisi STR16: • Ychwanegu geiriad ar ddiwedd pwynt i. *"yn unol â'r meini prawf a nodir ym Mholisi EN23".* • Ychwanegu geiriad ar ddiwedd pwynt ii. *"fel y nodir ar y map cyfyngiadau ac a weithredir drwy Bolisi EN24".* • Diwygio pwynt iii. *"Cyfrannu tuag at gyflenwad rhanbarthol o fwynau drwy ddyrannu o leiaf 3.543 miliwn tunnell o dywod a graean, ac o leiaf 35.928 miliwn*		

	tunnell o gerrig wedi'u malu drwy'r estyniadau i'r chwareli presennol fel y nodir ym Mholisi EN25, safleoedd newydd ac mewn cydweithrediad gyda Chyngor Sir Ddinbych a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam." • Camgymeriad ym mhwynt iv. Gosod yr hyn sydd ar goll sef 'y gall' rhwng 'fel' a 'leihau' • Ychwanegu geiriad ar ddiwedd pwynt vi:- *"yn unol â'r meini prawf a nodir ym Mholisi EN27".*		
AP19.3	Diwygio'r testun ym mharagraff 8.27 yn yr RJ:- *"Mae'r Datganiad Technegol Rhanbarthol a'r atodiad sy'n cyd-fynd ar gyfer Gogledd Cymru yn nodi lefel yr angen am fwynau ar lefel rhanbarthol ac yna mae'n rhannu hyn i'r awdurdodau lleol unigol. Mae'r angen am dywod a graean ychwanegol yn ogystal â cherrig wedi'u malu wedi ei nodi yn Sir y Fflint yn Ail Adolygiad y Datganiad Technegol Rhanbarthol. Cynigir diwallu'r angen hwn drwy ymestyn y chwareli presennol. Caiff dyraniadau manwl eu nodi o fewn y Cynllun ym Mholisi EN25 a'u ddangos ar y Map Cynigion. Yn ychwanegol at hyn fe*		

	fydd angen datblygiad safle newydd hefyd i fodloni'r galw yn y dyfodol yn ogystal a'r estyniadau a gynigir fel dyraniadau. Fe all dyraniadau eraill gael eu cynnig ar adolygiadau dilynol o'r CDLl er mwyn bodloni'r angen a nodwyd yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol ac i gydweithio gydag awdurdodau Cyngor Sir Ddinbych a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam o fewn yr is-ranbarth.		
AP19.4	Diwygio'r testun ym mharagraff 12.84 o'r RJ:- *"Mae'r Datganiad Technegol Rhanbarthol (ail adolygiad) a'r atodiad ar gyfer Gogledd Cymru wedi nodi gofyniad i Sir y Fflint i ddyrannu o leiaf 3.543 miliwn tunnell o dywod a graean ac o leiaf 35.928 miliwn tunnell o gerrig wedi'u malu. Nid yw'r dyraniadau a nodwyd ym Mholisi EN25 yn ddigon i fodloni'r angen a nodwyd dros gyfnod y cynllun. Felly fe fydd y cyngor yn cydweithio â Chyngor Sir Ddinbych a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam er mwyn darparu'r dosbarthiadau a nodwyd. Mae Datganiad o Gydweithio Is-Ranbarthol wedi ei lunio er mwyn darparu sicrwydd y bydd yr angen a nodwyd yn cael ei fodloni dros gyfnod y cynllun."*		
AP19.5	Cywiriad i'r tabl yn EN25:-		

	Newid Ddôl Uchaf o 1.4 miliwn tunnell i 900,000 tunnell. Newid Fron Haul o 900,000 tunnell i 500,000 tunnell.		
AP19.6	Ychwanegu at y rhestr o ddogfennau tystiolaeth allweddol yn y Cyd-destun Polisi ar ôl STR16:- - Adroddiad Gweithgor Agregau Rhanbarthol Gogledd Cymru - Ail adolygiad y Datganiad Technegol Rhanbarthol a'r atodiad i gyd-fynd â'r datganiad ar gyfer Gogledd Cymru - Nodyn Cyngor Technegol Mwynau (MTAN1)		
AP19.7	Ychwanegu'r dogfennau canlynol at y dangosyddion monitro:- - Adroddiad Gweithgor Agregau Rhanbarthol Gogledd Cymru - Ail adolygiad y Datganiad Technegol Rhanbarthol a'r atodiad i gyd-fynd â'r datganiad ar gyfer Gogledd Cymru		